Aros mewn ysbyty?

Peidiwch ag anghofio eich bag gwyrdd!

Os ydych chi'n cymryd meddyginiaethau'n rheolaidd, mae'n syniad da eu cadw i gyd mewn man diogel lle gallwch gael hyd iddyn nhw'n hawdd.

Ydych chi'n gwybod eich bod chi'n gallu cael bag gwyrdd am ddim i gadw eich holl feddyginiaethau?

Hefyd, os bydd yn rhaid i chi fynd i mewn i ysbyty, gallwch fynd â'ch bag gwyrdd gyda chi er mwyn i staff yr ysbyty wybod pa feddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd.

Yn ystod eich arhosiad mewn ysbyty, mae hyn yn golygu:

- y gallwch barhau i gymryd eich meddyginiaethau fel arfer
- bod eich meddyginiaethau'n cael eu rhoi yn gywir (y ddos gywir ar yr amser cywir)
- y gallwch gymryd unrhyw feddyginiaethau newydd yn ddiogel.



Mae bagiau gwyrdd ar gael mewn ambiwlansys ac o fferyllfeydd ysbytai.
Peidiwch ag anghofio gofyn am un.

Pa feddyginiaethau ddylai fynd i'r bag?

- Tabledi a chapsiwlau
- Meddyginiaethau hylifol
- Hufenau ac eli
- Mewnanadlwyr
- Chwistrellwyr/tabledi GTN ar gyfer angina
- Clytiau
- Pigiadau
- Unrhyw feddyginiaethau neu ychwanegiadau rydych chi'n eu defnyddio o'r fferyllfa, archfarchnad neu lysieuydd.

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru